| GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **189 – Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Gosodwyd yn Senedd y DU: 19 Hydref 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 97 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Ddim yn ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu deddfwriaeth bresennol ynghylch mercwri ac yn llenwi bylchau deddfwriaethol. Mae Confensiwn Minamata ar fercwri, y mae'r DU yn rhan ohono, yn gytuniad gan y Cenhedloedd Unedig sy'n bwriadu diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd rhag effeithiau negyddol dod i gysylltiad â mercwri. Er mwyn galluogi'r DU a'r Aelod-wladwriaethau eraill i ymrwymo i'r Confensiwn, mabwysiadodd yr UE a'i Aelod-wladwriaethau Reoliad (EU) 2017/852 ("Rheoliad yr UE") ar fercwri. Mae Rheoliad yr UE yn gweithredu'r ymrwymiadau yng Nghonfensiwn

Minamata, gan fynd ymhellach mewn sawl maes, gan gynnwys cyfyngiadau ar ddefnyddio amalgam deintyddol ac allforio mercwri.

Diben y Rheoliadau hyn yw gwneud y cywiriadau angenrheidiol i Reoliad yr UE er mwyn galluogi iddo barhau i gael ei ddefnyddio fel cyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl dyddiad cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau at ddibenion gweithredu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon.

Caiff Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017 a Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 eu diwygio gan y Rheoliadau hyn. Caiff Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 eu dirymu ganddynt.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 20 Hydref, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Y Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Ym marn y cynghorwyr cyfreithiol, nid oes unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a sefydlu fframweithiau cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.